Llais y Goedwig
The voice of community woodlands in Wales

What we can do.. Publications

Llais y Goedwig (LlyG) is developing a series of publications which we hope will be of use to individuals, groups and organisations involved in or interested in community woodlands in Wales.

Advisory Notes

The purpose of the Advisory Notes is to help community woodland groups across Wales develop best practice and share knowledge and skills. To be successful, community woodland management has to meet the needs of both local people and develop the woodland in ways which achieve the greatest benefits. Achieving this can seem daunting, especially if it is the first time a community has been involved with woodlands or if it involves balancing the demands of many different groups (how do you provide for mountain bikers, walkers, firewood collectors and those who just want the woodland to 'stay the same'?) The Advisory Notes are a series of short publications which offer advice, clarify theory and illuminate the practice of managing a woodland as a group. The first of these are based on presentations given by LlyG members during our summer 2010 Woodland Management Roadshows

Advisory Notes

1. Getting to know your community
2. Getting to know your woods
3. Woodland management planning
4. Defining objectives
5. An introduction to climate change
6. A guide to woodland insurance and liabilities

The most useful sources of advice are those that draw on real experience in Wales. If you have a subject on which you can offer advice, or would like to suggest as the topic for an Advisory Note please do get in touch. Over time we hope we can pool our ideas to build up a body of knowledge based on real experience in Wales

Case studies

These are prepared by member groups as accounts of their individual stories from the germ of an idea to a fully-fledged community woodland group. The emphasis is on an honest evaluation of what did or didn't work as a source of considered advice for other groups. The first five case studies were commissioned as part of the Forestry Commission LlyG support project in 2010 but we hope to add more stories to this series. Every group's journey is different and it would be fantastic if you could share your experience of what has and hasn't worked for you. Maybe you've found an innovative way to involve people in a woodland wildlife survey or you have successfully tackled woodland vandalism, or you have a community woodland plan that you would like to share. Please contact us if you have a story you would like to share – we can't promise to be able to pay for these to be prepared – but will always be interested and can help shape and publish your stories. The groups who are providing case studies are:

Case studies

1. Blaen Brân Community Woodland
2. Ruperra Conservation Trust
3. Llangattock Community Woodland Group
4. Coed y Bobl Trust
5. Coed Marros Ltd

Contact us:
Llais y Goedwig
Unit 6, Dyfi Eco Park, Machynlleth, Powys
SY20 8AX
Tel: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Beth fedrwn ni ei wneud..
Cyhoeddiadau

Mae Llais y Goedwig (LlyG) yn datblygu cyfres o gyhoeddiadau y gobeithiwn fydd o ddefnydd i unigolion, grwpiau a sefydliadau sydd yn ymwneud â neu gyda diddordeb mewn coedlannau cymunedol yng Nghymru. Mae dwy set o gyhoeddiadau yn cael eu datblygu: Nodiadau Ymgynghorol ac Astudiaethau Achos.

Nodiadau Ymgynghorol

Pwrpas y Nodiadau Ymgynghorol yw cynorthwyo grwpiau coetir cymunedol ar draws Cymru i ddatblygu arferion gorau a rhannu gwybodaeth a sgiliau. I fod yn llwyddiannus, rhaid i reolaeth coedlan gymunedol ddiwallu anghenion y bobl leol a hefyd datblygu'r goedlan yn y modd mwyaf manteisiol. Gall cyflawni hyn ymddangos yn frawychus, yn enwedig os mai dyma'r tro cyntaf i'r gymuned fod yn ymwneud â choedlannau, neu os yw'n golygu cydbwyso gofynion llawer o wahanol grwpiau (sut mae modd darparu ar gyfer beicwyr mynydd, cerddwyr, casglwyr coed tân a'r rheini sydd am i'r goedlan 'aros fel y mae'?) Mae'r Nodiadau Ymgynghorol yn gyfres o gyhoeddiadau byr sy'n cynnig cyngor, yn egluro damcaniaeth a thaflu goleuni ar yr arfer o reoli coedlan fel grŵp. Mae'r cyntaf o'r rhain yn seiliedig ar gyflwyniadau a roddwyd gan aelodau LlyG yn ystod ein Sioeau Teithiol Rheoli Coedlannau Haf 2010.

Nodiadau Ymgynghorol

1. Dod i adnabod eich cymuned
2. Dod i adnabod eich coedwigoedd
3. Cynllunio rheoli coedlan
4. Diffinio amcanion rheoli coedlannau
5. Cyflwyniad i newid yn yr hinsawdd
6. Yswiriant coedlannau a rhwymedigaethau

Y ffynonellau mwyaf defnyddiol o'r cyngor ar gael yw'r rhai sy'n tynnu ar brofiad gwirioneddol o reoli coedlan dan arweiniad cymuned yng Nghymru. Os oes gennych chi bwnc y gallwch gynnig cyngor arno, neu os hoffech gynnig pwnc ar gyfer Nodiadau Ymgynghorol, mae croeso i chi gysylltu â ni. Dros amser, gobeithiwn gasglu ein syniadau er mwyn creu corff o wybodaeth yn seiliedig ar brofiad go iawn yng Nghymru.

Astudiaethau achos

Mae'r rhain yn cael eu paratoi gan grwpiau i adrodd hanes eu straeon unigol o egin y syniad gwreiddiol hyd at ei lawn dwf fel grŵp coedlan cymunedol go iawn. Mae'r pwyslais ar werthusiad gonest o'r hyn weithiodd neu na weithiodd fel ffynhonnell cyngor ystyrlon i grwpiau eraill. Cafodd y pum astudiaeth achos cyntaf eu comisiynu fel rhan o brosiect cefnogi cyntaf y Comisiwn Coedwigaeth efo Llais y Goedwig, ond gobeithiwn ychwanegu mwy o straeon i'r gyfres yma. Mae taith pob grŵp yn un wahanol a byddai'n wych pe gallech rannu eich profiad o'r hyn sydd wedi a'r hyn sydd heb weithio i chi. Efallai eich bod wedi dod o hyd i ffordd arloesol o gynnwys pobl mewn arolwg bywyd gwyllt coedlan neu eich bod wedi mynd i'r afael â fandaliaeth coedlan yn llwyddiannus, neu bod gennych gynllun coedlan gymunedol yr hoffech ei rannu. Cysylltwch â ni os oes gennych chi stori yr hoffech ei rhannu – allwn ni ddim addo medru talu am gael ei pharatoi - ond byddwn bob amser gyda diddordeb ac yn gallu eich cynorthwyo i lunio a chyhoeddi eich straeon. Y grwpiau sy'n darparu astudiaethau achos yw:

Nodiadau Ymgynghorol

1. Coedlan Gymunedol Blaen Brân
2. Ymddiriedolaeth Gadwraeth Ruperra
3. Grŵp Coedlan Gymunedol Llangatwg
4. Ymddiriedolaeth Coed y Bobl
5. Coed Marros Cyf

Cysylltwch â ni
Llais y Goedwig
Uned 6,Parc Eco Dyfi, Machynlleth, Powys
SY20 8AX
Ffôn: 0845 456 0342
www.llaisygoedwig.org.uk